



Cyfarfod Cymdeithas CYSAG au Cymru, yn Sir Fynwy Swyddfeydd y Cyngor,
 Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga. 3 Mawrth 2017 (**10.30am – 3pm**)
Wales Association of SACRES meeting, at the Monmouthshire County Council
 Offices, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA. 3 March 2017 (**10.30am – 3pm**)

Presenoldeb/Attendance

<p>Ynys Môn / Anglesey Bethan James (BJ) Rheinallt Thomas (RT)</p> <p>Blaenau Gwent Gill Vaisey (GV) Soam Sharma (SS) Chris Abbas (CA) Mal Jilani (MJ)</p> <p>Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend Edward Evans (EE) Vicky Thomas (VT)</p> <p>Caerffili/ Caerphilly Enfys Hawthorn (EH) Janet Jones (JJ) Vicky Thomas (VT)</p> <p>Caerdydd / Cardiff Gill Vaisey (GV)</p> <p>Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire Mary Parry (MP)</p> <p>Ceredigion</p> <p>Conwy Phil Lord (PL) Nicholas Richter (NR)</p>	<p>Sir Ddinbych / Denbighshire Phil Lord (PL)</p> <p>Sir y Fflint / Flintshire Phil Lord (PL)</p> <p>Gwynedd Bethan James (BJ)</p> <p>Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Vicky Thomas (VT) Ernie Galsworthy (EG)</p> <p>Sir Fynwy / Monmouthshire Gill Vaisey (GV) Val Howells (VH) Peter Baines (PB) Kath Fitter (KF) N. Baicher (NB) Tudor Thomas (TT) Bob Cotterell (BC) Sue Cave (SC) Liz Hackett Pain (LHP)</p> <p>Castell-nedd Port Talbot / Neath and Port Talbot</p> <p>Casnewydd / Newport N. Baicher (NB) Huw Stephens (HS) Sally Northcott (SN) Vicky Thomas (VT)</p> <p>Sir Benfro / Pembrokeshire Mary Parry (MP)</p>	<p>Powys John Mitson (JM) Margaret Evitts (ME)</p> <p>Rhondda Cynon Taf Paula Webber (PW) Mathew Maidment (MM)</p> <p>Abertawe / Swansea Vicky Thomas (VT)</p> <p>Torfaen / Torfaen Marilyn Frazer (MF) Kenneth Jacob (KJ) Vicky Thomas (VT)</p> <p>Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan Paula Webber (PW) Dafyd Trehearne (DT) R. Delpak (RD)</p> <p>Wrecsam / Wrexham Libby Jones (LJ) Tania ap Sion (TaS)</p> <p>Sylwedyddion / Observers Simon Oram Clare Cooper Sharon Perry-Phillips (Monmouth Comp.) Tudor Thomas (REMW) Andrew Jones (Caldicot School) Fr Bernard Sixtus (Catholic Archdiocese of Cardiff) Pauline Smith (Welsh Government) Manon Jones (Welsh Government) Owain ap Dafydd (Ysgol Gyfun Cwm Rhymini)</p>
---	---	--

1. Cyflwyniad a chroeso /Introduction and welcome

Diolchodd Cadeirydd CCYSAGauC, Phil Lord (PL), i gorau ysgolion Cantref a Shirenewton am yr adloniant ardderchog a gafwyd. Croesawodd yr aelodau i Siambr y Cyngor ym Mrynbuga, Sir Fynwy. Dywedodd fod cynrychiolwyr CYSAG Sir Fynwy ar gael i siarad â'r aelodau yn ystod y diwrnod.

Gan ddiolch i CCYSAGauC am ddewis y lleoliad, croesawodd y Cynghorydd Jim Higginson yr aelodau i'r Siambr gan ddweud nad yw Addysg Grefyddol Cyngor Sir Fynwy byth yn cael ei thanbriso na'i than-werthfawrogi. Cafodd yr aelodau eu croesawu hefyd gan Gadeirydd CYSAG Sir Fynwy, Liz Hackett-Payne, a fynegodd ei diolch i bawb a oedd wedi trefnu'r diwrnod. Dywedodd wrth yr aelodau ei bod yn ffrainc bod yn Gadeirydd CYSAG Sir Fynwy, sy'n gweithio ar egwyddor cynhwysiant cyflawn. Roedd hi'n cydnabod fod CYSAG yn ffynnu o ganlyniad i ymroddiad y cynrychiolwyr ffydd, y mae eu safbwyntiau dilys yn cael eu parchu gan CYSAG. Cydnabu hefyd y cynrychiolwyr athrawon, cynghorwyr cefnogol ac aelodau eraill sy'n dod ag arbenigedd academiaidd. Siaradodd Liz am natur gadarnhaol y CYSAG wrth ymgymryd â'i ddyletswydd yn monitro AG mewn ysgolion. Mae'r CYSAG yn trefnu digwyddiad AG, yn cynnwys gweithdai, i helpu'r pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hyn yn cyfoetogi gallu plant i ddeall nifer o grefyddau. Yn ychwanegol, roedd y CYSAG wedi cael cyflwyniadau gan athrawon a disgyblion a fu ar deithiau ysgol i Auschwitz ac i Jerwsalem. Yn nhyb Liz, mae CYSAG yn rym o gadernid a chynhwysiant a dwyedodd, gyda dau ar hugain o CYSAGau yn gweithio gyda'i gilydd, mae gan CCYSAGauC rôl bwysig iawn mewn AG. Anogodd CCYSAGauC i sicrhau nad oedd swyddogaethau'n CYSAGau yn cael eu herydu a bod dyletswyddau statudol CYSAG yn dal i gael lle blaenllaw yn llygaid yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru.

2. Adfyfriotawel / Quiet reflection

Dangosodd PL ffilm ar YouTube (<https://www.youtube.com/watch?v=BQbeWFxsRp0>) am bwysigrwydd Dydd Gŵyl Dewi gan Milly, 4 oed. Siaradodd hefyd am Nos Ynyd a'r Grawys, gan fyfyrion ar sut mae dathliadau cymunedol yn gysylltiedig â'r gorffennol, sydd yn agwedd bwysig o

1. Cyflwyniad a chroeso /Introduction and welcome

The Chair of WASACRE, Phil Lord (PL), thanked Cantref and Shirenewton school choirs for the excellent entertainment provided. He welcomed members to the Council Chamber at Usk, Monmouthshire. Monmouthshire SACRE representatives were available to talk to members during the day. Thanking WASACRE for choosing the venue, Cllr. Jim Higginson welcomed members to the Chamber saying that at Monmouthshire County Council Religious Education is never underestimated or undervalued. Members were also welcomed by Chair of Monmouthshire SACRE, Liz Hackett-Payne, who expressed thanks to all who had organised the day. She told members it is a privilege to act as Chair to Monmouthshire SACRE, which works on the premise of complete inclusivity. She recognized that the SACRE thrives as a result of the dedication of faith representatives, who bring a valid and respected perspective to SACRE. She acknowledged teacher reps, fully supportive councillors and other members who bring academic expertise. Liz spoke of the positive nature of the SACRE in carrying out their duty to monitor RE in schools. The SACRE organises an RE event, including workshops, to help the transition between primary and secondary schools. This enhances the ability of children to understand many faiths. Additionally, the SACRE has received presentations from teachers and pupils who made school visits to Auschwitz and to Jerusalem. Liz believes SACRE is a force of positivity and inclusivity and stated that, with twenty-two SACREs working together, WASACRE has a very important role in RE. She encouraged WASACRE to ensure that the roles of SACREs are not eroded and that SACRE's statutory duties remain foremost in the eyes of the local authority and Welsh Government.

2. Adfyfriotawel / Quiet reflection

PL showed a YouTube film (<https://www.youtube.com/watch?v=BQbeWFxsRp0>) about the importance of St David's Day from Little Milly aged 4. He also spoke about Shrovetide and Lent, reflecting on how community celebrations are connected to the past, which is an important aspect of

<p>Addysg Grefyddol.</p> <p>3. Ymddiheuriadau / Apologies</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew Pearce, Cyng. Lyndon Lloyd, Alwen Roberts, Mark Champion, Cyng. Mary Barnett, Helen Gibbon, Rachel Bendell, Alison Lewis, Shè-zèr Kandro, Meinir Wynne Loader.</p> <p>4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, 18 Tachwedd 2016 / Minutes of meeting held in Carmarthen, 18 November 2016</p> <p>Derbyniwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan Rheinallt Thomas (RT) ac eiliwyd gan Gill Vaisey (GV).</p> <p>5. Materion yn codi / Matters arising</p> <p>T3. Mae'r gwaith o goladu Syniadau AG Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (REMW) yn dal i fynd rhagddo.</p> <p>T3. Presenoldeb dyneiddwyr – Mae'r ddogfen ganllaw, sef Cylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig yn gaethiwus; fodd bynnag mae'r canllaw'n sefyll nes y caiff ei newid. Dywedodd GV wrth aelodau CCYSGAuC fod Kathy Riddick wedi anfon llyfr newydd <i>What is Humanism?</i> a ysgrifennwyd gan Michael Rosen ac Annemarie Young ar gyfer disgyblion CA2 a CA3. Dywedodd Kathy y byddai wedi hoffi bod yn bresennol yn y cyfarfod ond nad oedd yn gwybod amdano tan yn ddiweddar.</p> <p>T3. Mae CCYSAGauC wedi derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru am statws y maes llafur cytûn.</p> <p>T.4. Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith wedi cwrdd â'r Gweinidog, Kirsty Williams. Trafodwyd statws y Maes Llafur Cytûn a gofynnodd y Gweinidog am dystiolaeth nad yw ysgolion yn cydymffurfio. Trafododd yr aelodau a all CYSAGau gynhyrchu dystiolaeth nad yw gofynion statudol yn cael eu bodloni. Cydnabu'r aelodau fod yna drefn i'w dilyn os gwelir nad yw ysgolion yn bodloni eu gofynion statudol ar gyfer AG ac y dylai CYSAGau geisio datrys y broblem yn y lle cyntaf. Roedd GV wedi'i chalonogi gan ymateb y Gweinidog, a dywedodd y dylai ysgolion fod yn cyrraedd safonau uwch ac roedd hi'n bendant, felly, fod yn rhaid i bob ysgol ddilyn y Maes Llafur Cytûn. Os nad oeddent, yna ni allent fod yn bodloni'r safonau gofynnol yna. Adroddodd GV fod y Gweinidog yn gryf iawn yn cefnogi CCYSAGAuC ar y pwnc hwn.</p> <p>T. 5. Bydd y cyflwyniad gan ymarferwyr arweiniol yn digwydd yn Wrecsam</p> <p>T. 7.Roedd PL wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor</p>	<p>Religious Education.</p> <p>3. Ymddiheuriadau / Apologies</p> <p>Apologies received from Andrew Pearce, Cllr Lyndon Lloyd, Alwen Roberts, Mark Champion, Cllr Mary Barnett, Helen Gibbon, Rachel Bendell, Alison Lewis, Shè-zèr Kandro, Meinir Wynne Loader.</p> <p>4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, 18 Tachwedd 2016 / Minutes of meeting held in Carmarthen, 18 November 2016</p> <p>The minutes were accepted as a true record of the meeting. Proposed by Rheinallt Thomas (RT) and seconded by Gill Vaisey (GV).</p> <p>5. Materion yn codi / Matters arising</p> <p>P3. The work collating REMW RE Ideas continues to be a work in progress.</p> <p>P3. Humanist attendance – The guidance document Welsh Office Circular 10/94 is restrictive; however the guidance stands until it is changed. GV told WASACRE members that Kathy Riddick has sent a new book <i>What is Humanism?</i> written by Michael Rosen and Annemarie Young for KS2 and KS3 pupils. Kathy said she would like to have been present at the meeting but was unaware about it until recently.</p> <p>P3. WASACRE has received a response from Welsh Government regarding the status of the agreed syllabus.</p> <p>P.4. Executive members have met with the Minister, Kirsty Williams. The status of the Agreed Syllabus was discussed and the Minister asked for evidence that schools are not complying. Members discussed whether SACREs can produce evidence that statutory requirements are not being met. Members acknowledged that there is a procedure to follow if schools are found not to be meeting their statutory requirement for RE and that SACREs should try to resolve the problem in the first instance. GV was heartened by the Minister's response, as she stated that schools should be meeting higher standards and was adamant, therefore, that all schools must follow the Agreed Syllabus. If they did not they could not meet those required standards. GV reported that the Minister was very strong in backing WASACRE on this issue.</p> <p>P. 5. The presentation from lead practitioners will go ahead in Wrexham</p> <p>P. 7. PL attended the EFTRE Executive meeting. He</p>
---	--

Gwaith EFTRE. Bu'n ymweld ag amrywiaeth o ysgolion a chafodd gyfle i aros gyda theulu yn y Ffindir. Ceir cyflwyniad/crynodeb yn Wrecsam.

T.8. Eitem 9. Roedd Edward wedi ysgrifennu at y Gweinidog. Mae gofynion statudol wedi'u datganoli. Dywedodd MP y gall San Steffan basio deddfwriaeth a Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu a yw Cymru'n derbyn neu'n gwrthod y ddeddfwriaeth. Nid oes pwerau wedi'u cadw gan San Steffan sy'n gymwys i addysg yn unig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith mai dim ond yn Lloegr y mae Comisiwn REC yn gymwys. Er bod Cymru yn bŵer deddfwriaethol, nid yw Hawliau Dynol a meysydd eraill o'r gyfraith wedi cael eu datganoli. Felly wrth wneud penderfyniadau mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn a yw hwn yn fater addysg yn unig neu a yw'n cynnwys pethau nad ydynt yn faterion datganoledig.

Gweithredu: Ysgrifennu at Kirsty Williams i ddiolch am ateb cyflym – EE.

T.10. Dyddiad cyfarfod yr haf yn Wrecsam yw dydd Gwener 7 Gorffennaf yn Siambr y Cyngor.

6. Cyflwyniad PYCAG / NAPfRE presentation:

Cyfoethogi'r cwricwlwm modern - o safbwynt ysgol arloesi / Enriching the modern curriculum – from a pioneer school perspective –Owain ap Dafydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Rhoddodd Owain ap Dafydd o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni gyflwyniad ar Adroddiad Donaldson/*Dyfodol Llwyddiannus*. Bydd gan Gwm Rhymni, yr unig ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerffili, dros 2000 o ddisgyblion o fewn 5 mlynedd. Maent yn gweld eu hunain ynghyd â'r ysgolion cynradd sy'n bwydo fel rhan o 'deulu o ysgolion'. Pan mae plant yn dechrau yn yr ysgol gynradd maent yn perthyn i Gwm Rhymni. Mae cynnydd disgyblion wrth galon yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymateb i Dyfodol Llwyddiannus/Adroddiad Donaldson. Mae'r ysgol wedi ystyried Dyfodol Llwyddiannus ac mae'r 4 Diben eisoes yn cael eu mabwysiadu gan yr ysgol. Mae'r prif ffocws yn yr ysgol ar addysgeg, arweinyddiaeth a chydweithio. Mae llythrennedd wrth wraidd popeth. Pan mae arsylwadau gwersi'n digwydd, maent yn edrych a yw'r 4 Diben wedi'u bodloni. Mae arbenigwyr yn yr ysgol uwchradd yn gweithio gydag ysgolion cynradd i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi cyflwyno Arweinwyr Addysgeg ac mae arweinwyr pwnc hefyd yn gyfrifol am ddatblygu staff. Mae'r ysgol yn cyflogi Uwch Arweinydd Addysgeg ar CAD1. Bydd yr Arweinwyr Addysgeg yn arwain ar chwe maes y cwricwlwm newydd. Mae gwaith clwstwr yn hanfodol. Maent yn cefnogi ysgolion cynradd ac yn cynghori ar arbenigaeth pwnc. Buont hefyd yn gweithio gydag

visited a variety of schools and had the opportunity to stay with a family in Finland. There will be a presentation/summary in Wrexham.

P.8. Item 9. Edward wrote to the Minister. Statutory requirements are devolved. MP said Westminster can pass legislation and Welsh Government decides whether Wales accepts or rejects legislation. There are no powers retained by Westminster that apply to just education. This concurs with the fact that the REC Commission only applies in England. Wales is a legislative power, but Human Rights and other areas of law are not devolved. So when making decisions Welsh government have to ask whether this is solely education or does it include things that are not devolved matters.

Action: Thanks will be written to Kirsty Williams for a swift reply – EE.

P.10. Date of the summer meeting in Wrexham is Friday 7th July in the Council Chamber.

6. Cyflwyniad NAPfRE / NAPfRE presentation:

Cyfoethogi'r cwricwlwm modern - o safbwynt ysgol arloesi / Enriching the modern curriculum – from a pioneer school perspective –Owain ap Dafydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Owain ap Dafydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni gave a presentation on the Donaldson Report/*Successful Futures*. Cwm Rhymni, the only Welsh medium school in Caerphilly, will have over 2000 pupils within 5 years. They see themselves along with the feeder primaries as part of a 'family of schools'. When children start primary school they belong to Cwm Rhymni. Pupil progress is at the heart of the school. The school has responded to *Successful Futures*/the Donaldson Report. The school has taken on board *Successful Futures* and the 4 Purposes are already being adopted by the school. The main focus at the school is on pedagogy, leadership and collaboration. Literacy is at the heart of everything. When lesson observations take place they look at whether the 4 Purposes are met. Specialists in secondary school are working with primary schools to develop the curriculum. The school has introduced Leaders of Pedagogy (LOP). Subject leaders are also responsible for developing staff. The school employs a Senior Leader of Pedagogy on TLR1. LOPs will be leading the six areas of the new curriculum. Cluster work is essential. They support primary schools and advise on subject specialisation. They also worked with Ysgol Llanharia Foundation unit KS2 and KS3 looking at pedagogy. The school takes time to reflect and improve and are developing consistency in a 3-16

uned Sylfaen CA2 a CA3 Ysgol Llanhari yn edrych ar addysgeg. Mae'r ysgol yn cymryd amser i fyfyrion a gwella ac yn datblygu cysondeb mewn cwricwlwm 3-16. Mae pontio yn allweddol i Ddyfodol Llwyddiannus. Mae'r athrawon yn ymweld â'r ysgolion cynradd yn rheolaidd er mwyn dod i adnabod y plant yn unigol. Ystyriwyd datblygu'r cwricwlwm fel ffordd ymlaen i ddatblygu hyder a lles y disgyblion. Ceir digon o ddigwyddiadau traws-gwricwlaidd yn Ysgol Cwm Rhymni. Siaradodd y Pennaeth am fod yn ardal Aberfan a nodi'r hanes hwn mewn gweithgareddau traws-gwricwlaidd yn debyg i'r ffordd y nodwyd hanes yr Holocost. Mae'r adran AG yn bwysig iawn yn yr ymagwedd draws-gwricwlaidd hon. Ystyrir fod Bagloriaeth Cymru yn hanfodol hefyd i ddatblygiad y cwricwlwm. Erbyn hyn mae Ysgol Cwm Rhymni yn dysgu AG drwy'r Cwricwlwm Iaith Gymraeg. Yn hytrach na'r awr yr wythnos arferol, dywedodd Owain fod AG, o ganlyniad i'r newid hwn, bellach yn cael pedair awr yr wythnos. Adroddodd fod Estyn yn hapus â'r ddarpariaeth hon. Mae'r cydlynnydd AG yn gweithio'n agos iawn â'r Adran Gymraeg. Yn marn Owain, mae'r adnoddau ar gyfer AG yn well gyda'r dull hwn gan fod yr adran Gymraeg wedi helpu i'w datblygu. Daw hyn a gwell dealltwriaeth o'r iaith. Mae cysondeb a safon y Gymraeg wedi gwella ac mae safon AG wedi gwella o ganlyniad i statws uwch yr athrawon sy'n dysgu AG. Mae AG yn bwnc gorfodol gan Donaldson ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Cred y pennaeth fod y 4 Diben yn ddelfrydol ar gyfer AG. Mae AG yn fwy na dim ond pwnc arall gan ei bod yn cyfrannu at les. Mewn ardal lle mae amddifadedd yn uchel ac mae gan bobl bryderon sylweddol am y mudo y credir sy'n digwydd yn y cymoedd, mae AG yn datblygu parch a dealltwriaeth.

Diolchodd PL i Owain am roi dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ar draws yr ysgol. Yn ystod y cwestiynau, dywedodd un aelod fod y Pennaeth wedi siarad am CA3 yn gorfod bodloni gofynion y Maes Llafur Cytûn. Ond beth sy'n digwydd yn CA4? Dywedodd Owain eu bod yn dilyn dull traws-gwricwlaidd. Mae AG wedi bod yn cael ei dysgu gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr pwnc yn yr ysgol. Weithiau mae hyn yn digwydd drwy ddiwrnodau traws-gwricwlaidd ond mae'r ysgol wedi ymdrin â'r Maes Llafur Cytûn ac mae Estyn wedi cydnabod hyn. Defnyddir Bagloriaeth Cymru i ddysgu AG hefyd. Dywedodd nad oedd yr ysgol wedi mynd am y cwrs byr, ond bod Astudiaethau Crefyddol TGAU a Lefel A yn ddewisiadau poblogaidd. Gofynnodd Huw Stevens (HS) faint o amser oedd yn cael ei roi i Hanes a Daearyddiaeth. Dywedodd Owain eu bod yn dal i

curriculum. Transition is a key in Successful Futures. Teachers visit primary schools on a regular basis to get to know the children individually. Curriculum development was seen as a way forward in developing the confidence and wellbeing of pupils. Cross curricular events are fundamental in Ysgol Cwm Rhymni. The Head talked about being in the Aberfan area and marking this history in cross curricular activities in a similar way they have marked the history of the Holocaust. The RE department is very important in this cross curricular approach. Welsh Bacc is also seen as fundamental to the development of the curriculum. Ysgol Cwm Rhymni now teaches RE through the Welsh Language Curriculum. Owain said that rather than the usual one hour per week, as a result of this change RE now gets four hours per week. He reported that Estyn were happy with the provision. The co-ordinator of RE works very closely with the Welsh department. In Owain's opinion, resources for RE are better with this approach as the Welsh department have helped to develop the resources. This, he maintains, brings out a better understanding from the language. The consistency and quality of the Welsh has improved and the quality of RE has improved as a result of the improved status of the teachers teaching RE. RE is compulsory subject in Donaldson in the Humanities AoLE. The headteacher believes that the 4 Purposes fit in ideally with RE. RE is more than just another subject it contributes to wellbeing. He said that in an area where deprivation is high and people have significant concerns about perceived migration in the valleys of Wales, RE is developing respect and understanding.

PL thanked Owain for providing an understanding of what is happening across the school. During questions a member said that the Head had talked about KS3 having to meet the requirements of the Agreed Syllabus. But what happens at KS4? Owain said that a Cross curricular approach is taken. RE has been taught by people who are not subject specialists in the school. Sometimes through cross curricular days but that the school has covered Agreed Syllabus and that this has been recognised by Estyn. Welsh Bacc is also being used to teach RE. He said that the school did not go down the short course route, but GCSE and A Level Religious Studies are popular options. Huw Stevens (HS) asked how much time was being given to History and Geog. Owain said that they continue to have one hour per week. He reiterated that he believed that RE has improved through teaching in

gael awr yr wythnos. Dywedodd unwaith eto ei fod yn credu fod AG wedi gwella drwy gael ei dysgu mewn gwersi Cymraeg mamiaith. Er mwyn cael myfyrwyr da mae angen athrawon da ac nid oes prinder o bobl yn ymgeisio am Gwm Rhymni. Wedi cael eu penodi, maent yn cael cyfle i ddatblygu. Mewn ateb i gwestiwn arall, cadarnhaodd Owain mai AG yw'r unig bwnc sy'n cael ei ddysgu yn y gwersi Cymraeg mamiaith, ond bod rhywfaint o AG yn cael ei dysgu yn y cyfnod cofrestru a thrwy'r Fagloriaeth. Dilynwyd hyn gan drafodaethau a'r neges glir oedd nad oedd aelodau CCYSAGauC yn credu fod dysgu AG yn y cyfnodau cofrestru yn gallu cael ei ystyried yn ymarfer da.

7. Cyflwyniad WASACRE/WASACRE presentation:

Gwaith y rhwydwaith ysgolion arloesi a'r MDaPh Dyniaethau/*Work of the pioneer school network and the Humanities AOLE* - Manon Jones
Cyflwynodd PL Manon Jones i'r Gymdeithas. Dywedodd wrth yr aelodau fod CCYSAGauC bellach yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru yn rheolaidd. Rhoddodd Manon Jones y diweddaraf i CCYSAGauC ar gynnydd presennol y cwricwlwm newydd gan gyfeirio'n arbennig at Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Cyhoeddwyd Dyfodol Llwyddiannus ddwy flynedd yn ôl ac mae Manon yn ystyried mai gwraidd y cwricwlwm newydd yw annog pobl ifanc i ddatblygu'n aelodau llawn o gymdeithas ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y 4 Diben. Adroddodd Manon mai'r argymhelliad yw fod AG yn parhau i fod yn ofyniad statudol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen *Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes* (<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=en>). Roedd cyflwyniad Manon yn crynhoi rhai o'r prif bwyntiau yn y ddogfen a fydd yn golygu newidiadau sylfaenol i'r system addysg yng Nghymru. Bydd y cwricwlwm yn cael ei weithredu'n llawn yn 2021. Bydd yna system atebolrwydd gadarn drwy gydol datblygiad y cwricwlwm. Sefydlwyd y rhwydwaith arloesi yn 2015. Mae Cymhwysedd Digidol yn un elfen o'r cwricwlwm sydd eisoes wedi'i datblygu. Yn 2017 bydd cymorth proffesiynol i'r arloeswyr dysgu proffesiynol sydd wrthi'n datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o baratoi'r ymarferwyr ar gyfer y cwricwlwm newydd ac maent wedi datblygu rhwydwaith o ysgolion ledled Cymru fel bod cynrychiolaeth briodol. Bydd y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cael eu datblygu ar y cyd. Bydd yr arloeswyr yn canfod beth sy'n gweithio

first language Welsh lessons. A question was asked about the quality of teachers applying at the school. Owain said that to produce good students we need good teachers and that they don't have a shortage of people applying at Cwm Rhymni. Once appointed, they are given the opportunity to develop. In answer to another question Owain confirmed that RE is the only subject to be taught through first language Welsh lessons, but that some RE was also taught during registration period and through the Welsh Baccalaureate. Discussions followed with a clear message that WASACRE members didn't think that teaching RE through registration periods could be considered as good practice.

7. Cyflwyniad WASACRE/WASACRE presentation:

Gwaith y rhwydwaith ysgolion arloesi a'r MDAPH Dyniaethau/*Work of the pioneer school network and the Humanities AOLE* - Manon Jones
PL introduced Manon Jones to WASACRE. He informed members that WASACRE are now meeting with Welsh Government on a regular basis. Manon Jones brought WASACRE up to date on the current progress of the new curriculum with particular reference to the Humanities AOLE. Successful Futures was published two years ago and Manon considered that the heart of the new curriculum is to encourage young people to develop as full members of society and that this is reflected in the 4 Purposes. Manon reported that the recommendation is that RE continues to be a statutory requirement. Welsh Government have published a document *A curriculum for Wales, a Curriculum for Life* (<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=en>). Manon's presentation summarised some of the main points within this document which will bring fundamental changes to the Education system in Wales. The curriculum will be fully implemented in 2021. There will be a robust accountability system throughout the development of the curriculum. The pioneer network was set up in 2015. Digital Competence is one area of the curriculum that has already been developed. In 2017 there will be practical support for the professional teaching pioneers who are developing the new curriculum. Welsh Government is looking at ways to prepare the practitioners for the new curriculum and have developed a network of schools across Wales so that there is proper representation. There will be a collaborative approach to the development of the AoLE. Pioneers will identify what is working at the

ar hyn o bryd, yn rhannu a rhoi adborth. Bydd hon yn ymagwedd gynhwysol gydag ymarferwyr yn arwain y gwaith. Byddant yn gweithio gydag arbenigwyr o Gymru a'r byd. Mae Llywodraeth Cymru, Estyn, Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid eraill yn bartneriaid yn natblygiad y cwricwlwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus hefyd i ddatblygu partneriaeth â CCYSAGauC ac maent yn gweld hyn fel rhywbeth hanfodol gan mai canolbwynt y gwaith yw datblygu elfen ddyniaethau'r cwricwlwm. Mynegodd Manon ei gwerthfawrogiad o'r cyngor a'r cymorth mae hi wedi'u cael gan CCYSAGauC. Dywedodd Manon wrth CCYSAGauC y bydd profiadau cyfoethogi yn ffocws ar draws y cwricwlwm cyfan a bod gwaith eisoes wedi dechrau ar y Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd cwestiynau'n cael eu gofyn megis, beth ydym yn ei olygu wrth y Dyniaethau? Beth yw'r cysylltiadau â'r Meysydd eraill? Y cam nesaf fydd datblygu'r gweithgorau manwl i edrych ar ddulliau traws-gwricwlaidd, cyfoethogi a phrofiadau, y dimensiwn Cymreig, sgiliau ehangach ac asesu a dilyniant. Mae'r grwpiau hyn wedi cyhoeddi adroddiadau sydd ar gael ar-lein. Bwriad y cwricwlwm newydd yw bod yn holistig. Mae'r grŵp sy'n datblygu'r dyniaethau wedi cyfarfod unwaith. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda'ch gilydd ac mae wedi gofyn i CCYSAGauC rannu yn y broses hon. Bydd aelodau o CCYSAGauC a PYCAG yn cwrdd â Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y mis. Bwriad Llywodraeth Cymru yw gweld sut y gall ymgysylltu â gwahanol GYSAGau i edrych yn benodol ar AG. Ei nod yw cael perthynas weithio dda o'r dechrau. Dywedodd Manon fod LIC angen gwybod beth yw'r problemau o ran AG o'r cychwyn cyntaf.

Roedd y cwestiynau a ddilynodd y cyflwyniad yn cynnwys:

“Ai'r bwriad yw y bydd y dyniaethau i gyd yn gweithio gyda'i gilydd?” - dywedodd Manon y byddant yn edrych ar y Dyniaethau mewn ffordd holistig ond y bwriad oedd cadw'r pynciau unigol yr un pryd. Byddant hefyd yn cysylltu â'r Maes Dysgu a Phrofiad gan y bydd fframwaith holistig i'r cwricwlwm newydd.

Holodd un aelod sut gall CYSAGau sicrhau fod y Maes Llafur Cytûn yn cael ei ddilyn. Mynegwyd pryder gan yr aelodau eu bod yn clywed fod rhai ysgolion yn meddwl yn barod nad oes raid iddynt ddilyn y Maes Llafur Cytûn. Dywedodd VT fod y CYSAG y mae hi'n ei gynrychioli eisoes wedi anfon llythyrau i'r ysgolion yn ailadrodd natur statudol y maes llafur cytûn ynghyd â ffurflen i'r ysgolion ei llenwi i ddangos ble maen nhw'n bodloni'r gofynion

moment, share and provide feedback. This will be an inclusive approach with practitioners leading the work. They will be working with experts from Wales and the world. Welsh Government, Estyn, Qualifications Wales and other stakeholders are partners in the development of the new curriculum. Welsh Government is also seeking to develop a partnership with WASACRE which they see as vital now that the focus of the work is to develop the humanities part of the curriculum. Manon voiced her appreciation of the advice and support she has received from WASACRE. Manon informed WASACRE that enriching experiences will be a focus across the whole curriculum and that work has already started on the AoLE. Questions will be asked such as, what do we mean by Humanities? What are the links to other AoLE? The next step will be to develop the detail working groups looking at cross curricular approaches, enrichment and experiences, the Welsh dimension, wider skills and assessment and progression. These groups have published reports which are available online. The new curriculum is meant to be holistic. The group developing humanities has met once. Welsh Government recognises the importance of working together. Welsh Government wants to build strong foundations. They recognise that WASACRE has a body of expertise and they have asked WASACRE to share in this process. Members from WASACRE and NAPFRE will meet with Welsh Government at the end of the month (add the date). Welsh Government are looking at how they can engage with various SACREs to look specifically at RE. Their aim is to have a good working relationship from the start. Manon stated that Welsh Government needs to know the RE issues from the very beginning.

Questions following the presentation included:

“I assume the intention that the humanities will work together?” – Manon said that Humanities will be looked at in a holistic way but that it was the intention that but the individual disciplines will remain. They will also be making the links with the AoLE as the new curriculum will be a holistic framework.

A member asked how SACREs can ensure how the Agreed Syllabus is being met. Members expressed concern that they are hearing that already some schools think that they do not have to follow the Agreed Syllabus. VT said that the SACREs she represents have already sent out letters to schools reiterating the statutory nature of the agreed syllabus along with a proforma for schools to fill in to show where they are meeting these legal requirements. The following points were raised in a lively discussion that took place following lunch:

cyfreithiol hyn.

Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth fywiog ar ôl cinio:

- Mae'n bwysig fod y Maes Llafur Cytûn yn cael ei ddilyn dros y blynyddoedd nesaf tra bod y 4 Diben yn cael eu datblygu o fewn y Dyniaethau. Mae statws AG yn aros yn statudol a dylai ysgolion fod yn cyflwyno AG yn ôl y Maes Llafur Cytûn.
- Pryder nad yw adroddiadau Estyn ar hyn o bryd yn dangos arfer da mewn AG. Mae'n bosibl fod Estyn yn gweld gwaith papur yn ystod yr arolygiadau ond nid yr AG ei hun. Gallai ddigwydd felly nad yw Estyn yn adrodd yn ôl pan nad yw ysgolion yn cydymffurfio â Meysydd Llafur Cytûn.
- Mynegodd yr aelodau eu pryderon y gallai dysgu AG drwy bynciau eraill fod yn 'lladd AG'. Nid yw'n briodol fod unrhyw bwnc yn cael ei gyflwyno yn ystod cofrestru, er enghraifft. Gall addysgu gan rai nad ydynt yn arbenigo mewn AG gael ei weld fel anghymwynas. Mae angen athrawon AG arbenigol i ddysgu AG yn effeithiol ac weithiau mae ysgolion yn defnyddio dull trawsgricwlaidd er mwyn arbed arian. Os yw ysgol yn gwerthfawrogi athrawon pwnc dylent fod yn buddsoddi mewn AG. Os yw penaethiaid yn dechrau gweld hyn fel arfer da, gallai danseilio egwyddorion Donaldson. Dywedodd Manon Jones fod angen, wrth gynllunio'r cwricwlwm newydd, Sicrhau Ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd. O 2018 ymlaen bydd dogfennau ar gael sy'n nodi sut y dylid a sut y gellid cyflwyno AG.
- Gellir ystyried y ddogfen 'Beth yw AG dda?' wrth gynllunio'r cwricwlwm newydd. Os yw AG i gael ei chyflwyno drwy'r cwricwlwm dyniaethau yn y dyfodol, mae angen iddi fod yn AG dda.
- Mae problem diffyg cydymffurfiaeth wedi codi ers y 18 mis diwethaf wrth i GYSAGau gael tystiolaeth anecdotaidd fod yna gred mewn rhai ysgolion nad oes raid glynu at y Maes Llafur Cytûn. Byddai rhai aelodau wedi hoffi derbyn datganiad gan y Gweinidog yn cadarnhau statws AG. Mewn rhai CYSAGau, mae llythyrau wedi mynd i'r ysgolion i gyd yn eu hatgoffa am natur statudol AG.
- Er y gellir cyflwyno AG mewn nifer o ffyrdd cyn belled â'u bod yn dilyn y Maes Llafur Cytûn, tynnwyd sylw at y pryder am lwyth gwaith Penaethiaid Adran AG lle byddai gofyn iddynt ddarparu adnoddau ar gyfer athrawon nad ydynt yn arbenigwyr.

- It is important that the Agreed Syllabus is adhered to during the next few years while the 4 Purposes are being developed within Humanities. The Status of RE remains statutory and schools should be delivering RE according to the Agreed Syllabus.
- Concern that Estyn current reports do not demonstrate good practice in RE. Members were concerned that during the inspections Estyn may perhaps see paperwork, but not the RE itself. Estyn may not, therefore, report when schools are not complying with Agreed Syllabuses.
